



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

8 Gorffennaf 2019

Adroddiad gan: Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

Pwnc: Datblygu model Ymgysylltu â Chymheiriaid yng Ngogledd Cymru

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno papur ar ddatblygu model Ymgysylltu â Chymheiriaid yng Ngogledd Cymru i'r Cyd-bwyllgor i'w gymeradwyo.

2.0 Cefndir

2.1 Mae Cenhadaeth Ein Cenedl yng Nghymru yn uchelgeisiol ac yn arloesol, ac mae'n gofyn i fudd-ddeiliaid ar bob lefel gydweithio i godi safonau, i leihau'r bwlch cyrhaeddiad, a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol.

2.2 Mae'r diwygio trawsnewidiol sydd ei angen os am gyflawni'r nodau hyn yn cyflwyno amgylchiadau heriol i bob ysgol. Mae'n hollbwysig felly bod arweinwyr a staff ym mhob sefydliad yn derbyn anogaeth a chefnogaeth yn y gwaith o ffurfio partneriaethau cryf ac effeithiol o fewn ac ar draws y system addysg. Bydd datblygu ymgysylltiad cymheiriaid aml-lefel ac aml-haenog, a gaiff ei greu a'i berchnogi gan yr ysgolion eu hunain, hefyd yn caniatáu i sefydliadau fabwysiadu agwedd integredig tuag at y daith ddiwygio cenedlaethol. Caiff y dull gweithredu integredig ei gefnogi'n effeithiol gan yr awdurdodau lleol a GwE.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi patrwm posib ar gyfer datblygu model ymgysylltiad cymheiriaid ystyrion yn rhanbarth Gogledd Cymru; un sydd yn mabwysiadu agwedd integredig tuag at y daith ddiwygio ond un sydd hefyd yn caniatáu hyblygrwydd yn y modd y caiff cydweithio ei ddiffinio o fewn yr wyth prif faes o'r daith ddiwygio.

3.2 Mae'r dull gweithredu rhanbarthol eisoes wedi mabwysiadu model gweithio clwstwr er mwyn cefnogi'r prif feysydd diwygio trawsnewidiol megis datblygu cwricwlwm ac ADY. Er mwyn integreiddio holl feysydd y daith ddiwygio'n llawn, mae dulliau gweithredu tebyg wrthi'n cael eu ffurfioli ar gyfer y prif feysydd eraill, sef atebolrwydd, digidol, a'r iaith Gymraeg.

3.3 Mae'r papur hwn yn egluro ein dull gweithredu o fewn agwedd 'atebolrwydd' y daith ddiwygio. Mae'n manylu ar sut y gellir defnyddio ymgysylltu â chymheiriaid fel sail i gylch trwyadl o ddatblygiad a gwelliant parhaus. Rydym yn credu y dylai ymgysylltiad a chefnogi cymheiriaid fod yn rhan annatod o welliant ysgol, wrth i ni symud tuag at system o hunan-wella, gan barhau i gefnogi'r ysgolion hynny sy'n destun pryder.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo datblygu y model Ymgysylltu â Chymheiriaid yng Ngogledd Cymru, fel yr amlinellir yn Atodiad 1.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a chynrychiolaeth o Benaethiaid.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Datblygu model Ymgysylltu â Chymheiriaid yng Ngogledd Cymru

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Mae rhan 5 o'r adroddiad yn egluro "nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn" gan y bydd "GwE yn gweithredu o fewn ei adnoddau ariannol presennol". O ganlyniad, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.